

NOSC 2026 Rhif 163

TRAFFIG FFYRDD

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Cilfan i'r de o Abercannaid,
Merthyr Tudful) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2026

Gwnaed

2 Medi 2026

Yn dod i rym

6 Medi 2026

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cilfan i'r de o Abercannaid, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Medi 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn hwn;

NWSI 2026 No. 163

ROAD TRAFFIC

The A470 Trunk Road (Layby
south of Abercannaid, Merthyr
Tydfil) (Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2026

Made

2 September 2026

Coming into force

6 September 2026

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Layby south of Abercannaid, Merthyr Tydfil) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2026 and this Order comes into force on 6 September 2026.

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used for the works associated with this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 6 Medi 2026 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o gilfan cefnffordd yr A470 tua’r de a leolir tua 2000 o fetrau (2km) i’r gogledd o Gylchfan Abercynon.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

2 Medi 2026

Nicci Hunter

Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Cardiff to Llangurig Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:01 hours on 6 September 2026 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the A470 trunk road southbound layby situated approximately 2000 metres (2km) north of Abercynon Roundabout.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 6 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated

2 September 2026

Nicci Hunter

Head of Governance and Assurance
Welsh Government